Cynigion Cyllideb Ddrafft Amlinellol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn unol â Rheol Sefydlog 20.7 a 20.7A

Hydref 2017

Cynigion y Gyllideb Ddrafft Amlinellol

1. Caiff y cynigion hyn eu gosod yn unol â Rheol Sefydlog 20.7 a 20.7A. Dylid eu darllen ynghyd â dogfennaeth ategol y gyllideb a gyhoeddwyd ar 3 Hydref 2017.

2. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig defnyddio adnoddau (gan gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y blynyddoedd ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

	2018-19		**2019-20**	
Cwmpas	**Adnoddau (£000)**	**Adnoddau Cronnus (£000)**	**Adnoddau (£000)**	**Adnoddau Cronnus (£000)**
Iechyd, Llesiant a Chwaraeon	7,645,072	68,844	7,883,018	68,844
Llywodraeth Leol	3,390,467	470	3,305,335	470
Cymunedau a Phlant	901,446	0	805,391	0
Yr Economi a'r Seilwaith	1,236,319	72,392	1,406,073	57,956
Addysg	2,163,805	248,845	2,290,328	288,575
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig	333,668	335,336	312,256	335,336
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	297,537	412,719	284,300	411,802
Cyfanswm	**15,968,314**	**1,138,606**	**16,286,701**	**1,162,983**

3. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig tynnu arian parod i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

	2018-19 (£000)	**2019-20 (£000)**
Gofyniad Adnoddau Net	**15,968,314**	**16,286,701**
Addasiadau:		
Taliadau Cyfalaf	-393,541	-393,288
Amhariadau	-73,086	-186,404
Symudiadau yn y Darpariaethau	-64,939	-69,977
Elw/Colled wrth werthu asedau	0	0
Symudiadau mewn stociau	0	0
Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr	0	0
Defnyddio Darpariaethau	0	0
Arall	0	0
Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru	**15,436,748**	**15,637,032**

4. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ariannu eu gwariant ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

	2018-19 (£000)	**2019-20 (£000)**
Grant Bloc (Terfyn Gwariant Adrannol)	15,419,791	15,691,989
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	722,301	999,933
Cyllid Wedi'i Ddatganoli:		
Ardrethi Annomestig	1,052,000	1,078,000
Treth Trafodiadau Tir	266,000	291,000
Treth Gwarediadau Tirlenwi	28,000	26,000
Cael Benthyg (Net)	124,384	121,256
Cyfanswm y cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru [Nodyn]	**17,612,476**	**18,208,178**

Nodyn: Yn cynnwys cyllid ar gyfer gwariant y tu allan i'r Cwmpas, ee darpariaethau heb eu dyrannu.

5. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig benthyg at ddibenion cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019, 31 Mawrth 2020 a 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:

	2018-19 (£000)	**2019-20 (£000)**	**2020-21 (£000)**
Cyfanswm y cyllid benthyca nad yw wedi'i ad-dalu fel ar 1 Ebrill (prifswm)	31,210	155,594	276,850
Benthyca cyfalaf arfaethedig i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn	125,000	125,000	125,000
Ad-daliad y prifswm yn ystod y flwyddyn	(616)	(3,744)	(6,936)
Benthyca cyfalaf crynswth nad yw wedi'i ad-dalu fel ar 31 Mawrth	**155,594**	**276,850**	**394,913**
Taliadau llog sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn	2,017	4,440	6,798

Amserlen Ad-daliadau yn seiliedig ar fenthyca ar y lefelau a nodir uchod			
	Symiau sy'n daladwy o fewn 1 blwyddyn (£000)	**Symiau sy'n daladwy o fewn 1 – 5 mlynedd (£000)**	**Symiau sy'n daladwy ar ôl 5 mlynedd (£000)**
Prifswm	616	31,291	374,303
Llog	2,017	29,197	123,219

Nodiadau:

1. Mae benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf yn cynnwys arian a fenthycwyd o dan adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd) a benthyciadau a gymerwyd cyn hyn o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol gan y Bwrdd Datblygu Cymru Wledig blaenorol a Chorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru.

2. Mae'r benthyciadau a gymerwyd gan y Bwrdd Datblygu Cymru Wledig blaenorol a Chorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru i fod i gael eu had-dalu erbyn 2042.

3. Tybir bod benthyca cyfalaf o dan adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd) am gyfnod o 30 mlynedd, felly bydd arian a fenthycir yn 2018-19 yn cael ei ad-dalu yn 2048-49.